# Adroddiad Blynyddol

# Menter Gorllewin Sir Gâr

Ebrill 2020 - Mawrth 2021

Amcanion:
Annog a chefnogi datblygiad cymunedol, ieithyddol ac economiadd




Menter Gorllewin Sir Gâr

# Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd ........ 3
Staff Menter Gorllewin Sir Gâr ........ 4
Plant a phobl ifanc ........ 6
Cymunedau Cymraeg ........ 7
Helo Blod ........ 8
Cynhwysiad Digidol ........ 9
Cynllun Profi ........ 10
Mentrau Iaith Cymru ........ 11
Ardaloedd Blaenoriaeth ........ 11
Gŵyl Canol Dre ........ 11
Partneriaethau ........ 12

# Rhagair y Cadeirydd

Mae wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus arall, a gallwn ymfalchïo yn y ffordd y mae'r Fenter wedi ymateb i'r heriau newydd sy'n wynebu ein cymunedau erbyn hyn.

Yng nghyd-destun Covid-19, nid oes angen i mi ddweud bod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un heriol ac anarferol i bob un ohonom. Er gwaetha'r heriau, aeth y Fenter o nerth i nerth gan addasu a pharhau i gynnig gwasanaeth pwysig i drigolion yr ardal. Yn ddigidol, ac yn fwy diweddar mewn person, rydym wedi gweld datblygiadau newydd o ran prosiectau, cyllid a staff a cheir manylion pellach am y gweithgareddau hyn yn yr adroddiad hwn.

Fel pob blwyddyn arall mae ein dyled ni, yn ymddiriedolwyr, yn fawr i'r staff. Hoffwn ddiolch i'r holl staff am eu gwaith caled a'r ffordd y maen nhw wedi addasu ac ymateb i'r sefyllfa bresennol. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Dewi am ei weledigaeth a'r ffordd y mae wedi arwain y Fenter trwy'r cyfnod ansicr hwn. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r holl ymddiriedolwyr hefyd am roi o'u hamser yn wirfoddol er mwyn sicrhau bod y Fenter yn gweithredu'n gywir ac yn effeithiol.

Rydym ni gyd ym Menter Gorllewin Sir Gâr yn ddiolchgar iawn i'n prif gyllidwyr sef Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Gâr, Cronfa Loteri Fawr, Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygiad Gwledig (CAEDG). Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth barhaus.

Wrth i ni edrych tuag at y dyfodol mae'n anodd iawn i unrhyw un ragweld beth fydd y sefyllfa yr adeg hon y flwyddyn nesaf. Un peth sy'n sicr, gyda chanlyniadau a holl ddata cychwynnol y Cyfrifiad yn cael eu cyflwyno yn 2022 mae gwaith a chyfrifoldeb y Fenter yn bwysicach nag erioed. Er gwaethaf ansicrwydd Covid-19, rwy'n hyderus y bydd pawb yn y Fenter yn parhau i weithio'n galed er mwyn adeiladau eto ar lwyddiannau'r blynyddoedd diwethaf.

Arwel Lloyd (Cadeirydd)

## Pwyllgor rheoli

| | |
|---|---|
| Arwel Lloyd | Cadeirydd (ers Hydref 2017) |
| Fioled Jones | Is Gadeirydd (tan Hydref 2020) |
| Dafydd Davies | Trysorydd ac Is Gadeirydd (ers Hydref 2020) |
| Hazel Evans | |
| Ken Davies | |
| Dafydd Hughes | |
| Myfanwy Jones | |
| Luned Thomas | |
| Jean Lewis | |
| Lowri Lloyd | |

# Staff Menter Gorllewin Sir Gâr

| | |
|---|---|
| Dewi Snelson | Prif Weithredwr |
| Denise Davies | Swyddog Gweinyddol |
| Nia ap Tegwyn | Uwch Swyddog Iaith |
| Gwawr Williams | Swyddog Ardaloedd Blaenoriaeth (tan Rhagfyr 2020)<br>Swyddog Cyfathrebu (ers Ionawr 2021) |
| Huw Lloyd | Swyddog Maes Digidol |
| Gareth Davies | Uwch Swyddog Maes Digidol |
| Meinir Evans | Cydlynydd Profi |
| Ceris Thomas | Swyddog Datblygu |
| Heledd Llwyd | Swyddog Helo Blod |
| Ceris Thomas | Swyddog Datblygu |
| Gwyneth Morris | Swyddog Datblygu |
| Alma Roberts | Swyddog Datblygu |
| Sioned Thomas | Swyddog Prosiect Profi |
| Llew Davies | Swyddog Maes Digidol |
| Wendy Rees Burge | Swyddog Maes Digidol (tan Tachwedd 2020) |
| Meinir Davies | Swyddog Datblygu Prosiect Digidol Sir Gâr (tan Medi 2020)<br>Swyddog Prosiect Profi (ers Hydref 2020) |
| Gruff Huws | Swyddog Maes Digidol |

<u>Staff newydd 2020-2021</u>

| | |
|---|---|
| Llŷr Jones | Swyddog Maes Digidol (ers Rhagfyr 2020 tan Mawrth 2021) |
| Alun Walters | Swyddog Maes Digidol (ers Chwefror 2021) |

# Teuluoedd

Mae darpariaeth i deuluoedd y Fenter wedi gorfod addasu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Er gwaetha'r cyfnodau clo a chyfyngiadau niferus rydym wedi parhau i greu arfer ymysg teuluoedd i gymdeithasu'n naturiol yn y Gymraeg yn rheolaidd trwy ddarparu cyfuniad o weithgareddau digidol, gweithgareddau digidol byw a gweithgareddau wyneb yn wyneb. Enghreifftiau o'n gweithgareddau digidol yw sesiynau stori, gweithgareddau crefft, helfeydd trysor natur wedi'u paratoi o flaen llaw i annog teuluoedd i grwydro yn ddiogel. Yn ddigidol byw gan ddefnyddio platfform Zoom, rydym wedi cynnal sesiwn grefft Dydd Gŵyl Dewi a Grotos Siôn Corn yn rhithiol. Yna, pan oedd cyfyngiadau yn caniatáu, roeddem yn falch i gynnig cyfres o Deithiau Bygi mewn tair ardal a Sesiynau Stori a Chân dan do.

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd 44 o weithgareddau wyneb yn wyneb, gyda 425 o blant a 380 o oedolion yn mwynhau ein gweithgareddau cymdeithasol i deuluoedd trwy gyfrwng y Gymraeg.


Yn ddigidol ar draws y flwyddyn, cynhaliwyd 111 o sesiynau gyda'r gweithgareddau yma yn cyrraedd 41, 939 o bobl tra bod y fenter yn gweithio o bell.

"Roedd gwybod fod gennyf rhywle i droi i ddod o hyd i adnodd er mwyn gwneud gweithgaredd rhwydd gyda'r bechgyn dros wyliau hanner tymor yn gwneud pethau lawer yn haws yn ystod cyfnod go ddiflas."

"Diolch o galon am y gweithgareddau ry'ch chi wedi'u trefnu da'r Fenter. Dwi ac Ester wedi joio, mae'n neis iawn cael esgus i adael y tŷ yn enwedig eleni pan mae'r cyfleoedd i wneud yn fwy prin."

"Diolch o galon am drefnu ac arwain y sesiwn crefft a chan Gwyl Dewi Ddydd Sadwrn a gwneud hynny mewn ffordd mor gartrefol a chyfeillgar. Roeddwn wedi mwynhau ac yn hapus o weld ymateb llan-Rhun i'r cwestiynau am y ddraig. Edrych ymlaen at ymuno a chefnogi eto yn y dyfodol. Diolch am roi o'ch amser ar fore Sadwrn."

"I was always welcomed even though I did not speak Welsh and that gave me so much more confidence to bring my new son out and about. Thank you very much for these sessions, right on my door step also!"





**Eleni mae bron i 43,000 wedi cymryd rhan a mynychu ein gweithgareddau digidol a wyneb yn wyneb wrth i'r fenter addasu ei gwaith.**

# Plant a phobl ifanc

Bu eleni'n flwyddyn anghyffredin iawn yn dilyn cyrhaeddiad y Pandemig. Bu'n raid i ni addasu gweithgareddau'r Fenter i blant a phobl ifanc a meddwl am syniadau newydd a ffres. Gydag ysgolion yn dysgu ar-lein roedd yn bwysicach fyth i ni gynnig cyfleoedd iddynt gymdeithasu a defnyddio'u Cymraeg y tu allan i'r dosbarth.

Ar gyfer y grŵp targed yma, mae'r ddarpariaeth o sesiynau'n amrywio er mwyn ateb y galw. Roedd ein sesiynau a'n digwyddiadau'n cynnwys Disgo Cwis, Cwis Dim Clem, Clwb Joio Drama a Fforwm Ieuenctid digidol a gynhaliwyd ar-lein. Cynhyrchwyd storfa helaeth o adnoddau i'w rhannu ar ein cyfryngau cymdeithasol a gyda'n hysgolion. Cynhaliwyd sawl cystadleuaeth a ddenodd nifer fawr o gynigion.

"Diolch am y fideos clocsio gan Tudur a canu hefo Siani Sionc! Dwi wedi bod yn eu pasio ymlaen i'r plant yma yn y Wladfa i'w difyrru tra mae'r ysgolion wedi cau."


"Diolch enfawr! Fy merch wedi joio mas draw a methu aros i ddod nol wythnos nesaf!"

"Just ishe dweud Diolch i chi a Sian Elin (a Dan) am clwb Drama. Yn enwedig am fod mor amyneddgar. Ma fy merch yn dawel ac yn bwyllog Iawn cyn siarad lan o flaen pobl. Heno odd y mwya dwi wedi clywed hi'n siarad ar sessiwnau ar lein. Chi yn creu awyrgylch cyfrillgar ac yn helpu hi i fod ar hyder i gyfrannu."

"Diolch yn fawr iawn am gynnal y sesiynau hyfryd yma. Mae'r plant wedi eu mwynhau mas draw."

"Diolch yn fawr iawn i chi am eich haelioni i ni fel ysgol a diolch am yr holl gefnogaeth a chydweithio eleni eto. A gobeithio y bydd 2021 yn flwyddyn dda o ran datblygu ymhellach y berthynas dda sydd rhyngddoch chi, fel menter, â'r ysgol."





**Ymunodd 112,863 o blant a phobl ifanc gyda ni ar-lein i ddefnyddio'u Cymraeg a chymryd rhan yng ngweithgareddau'r Fenter dros y flwyddyn.**

# Cymunedau Cymraeg

Mae cynnig cyfleoedd cymunedol a chynnal gweithgareddau yn y gymuned wedi bod yn llawer mwy heriol eleni oherwydd y cyfnod clo. Serch hynny mae'r fenter wedi addasu a llwyddo i drefnu digwyddiadau digidol a digidol byw rheolaidd er mwyn creu'r arfer o gymdeithasu yn y Gymraeg a hynny mewn meysydd amrywiol i apelio at ystod eang o bobl. Rydym wedi cynnal sesiynau ffitrwydd, bwyta'n iach, arbed arian a chynnal a chadw car trwy ryddhau cyfres o fideos. Mae ein arlwy digidol byw wedi cynnwys nosweithiau pynciol megis coginio, gosod blodau a harddwch, nosweithiau gyda siaradwyr gwadd a chwisiau. Rydym wedi parhau i gydlynu Tudalen Gymraeg y Carmarthen Journal ac wedi gwneud cyswllt gyda nifer o ddysgwyr newydd yn ystod y cyfnod. Gan bod y fenter wedi'i hen sefydlu yn ein cymunedau, rydym yn bwynt cyswllt cyntaf yn aml iawn am nifer o ymholiadau cyffredinol a Chymraeg. I ymateb i hyn, rydym wedi gallu cynnig cymorth rhithiol un i un i unigolion ddatblygu sgiliau digidol sydd wedi bod yn hanfodol yn ystod y clo.

"Edrych yn grêt. Top Job. Diolch am drefnu Ceris ac Alma. Heb wneud rhywbeth fel hyn o'r blaen ond credu roedd pawb wedi mwynhau ac yn lwyddiant. Nadolig Llawen."

"Diolch Ceris am drefnu y noson goginio, mi wnes i joio mas draw. Roeddwn yn cymryd nodiadau ac yn canolbwyntio. Dwi'n bwriadau neud y pei dros Nadolig. Diolch yn fawr."

"Roedd yn braf cael gwneud y sesiwn dros y cyfnod clo er mwyn dysgu sgil newydd ond yn bwysicach roedd yn wych fy mod wedi gallu gwneud hyn trwy gyfrwng y Gymraeg am fy mod yn byw gyda fy mhartner sydd ddim yn siarad Cymraeg ac am nad wyf yn gallu gweld fy nheulu sy'n siarad Cymraeg yn wyneb yn wyneb roedd yn wych cael cymdeithasu gan ddefnyddio'r Gymraeg."

"Diolch am yr hyfforddiant neithiwr Alma. Roedd yn fuddiol iawn i'r rhieni oedd wedi mynychu."

"Thank you for the information. They have been exactly what I have been looking for as I am trying to learn Welsh."






**Trwy ein gwaith yn y maes hwn eleni rydym wedi trefnu 270 o ddigwyddiadau ar-lein ac mae dros 203,000 wedi ymuno a chymryd rhan yn ein gweithgareddau a defnyddio'u Cymraeg.**

# Helo Blod

Bu newidiadau i'r prosiect hwn yn ystod y flwyddyn. Cafwyd cyfnod o ail-frandio lle newidiwyd enw'r prosiect o 'Cymraeg Byd Busnes' i 'Helo Blod'. Mae'r prosiect Helo Blod yn cynnig cefnogaeth a chymorth am ddim i fusnesau ar eu defnydd o'r Gymraeg. Gall hyn gynnwys cyfieithu am ddim, marchnata dwyieithog, cymorth gyda recriwtio ac unrhyw gefnogaeth arall ynghylch eu defnydd o'r Gymraeg. Mae hwn yn brosiect cenedlaethol, ac swyddogion 'Helo Blod Lleol' yn gweithio o swyddfeydd y Mentrau Iaith ledled Cymru.

Mae'r swydd yn yr ardal hon wedi ei rhannu rhwng Menter Gorllewin Sir Gâr a Menter Sir Benfro. Parhawyd â'r gwaith o gefnogi busnesau yn rhithiol. Yn ystod y flwyddyn llwyddwyd i gael cyswllt â 81 o fusnesau yn ardal y Fenter hon, gan gyfeirio'r nifer hynny o fusnesau at linell gyswllt Helo Blod er mwyn derbyn gwaith i'w gyfieithu. Gweithiwyd yn ddwys gyda 7 o'r busnesau hynny er mwyn cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg dros gyfnod penodol o amser. Er bod llai o ddigwyddiadau rhwydweithio yn cael eu cynnal yn rhithiol, llwyddwyd i fynychu 16 o ddigwyddiadau rhwydweithio/busnes ar-lein er mwyn lledaenu'r neges am y prosiect. Cynhaliwyd 3 digwyddiad rhithiol er mwyn hyrwyddo'r prosiect, roedd 2 o'r rhain yn ddigwyddiadau rhanbarthol ac un yn ddigwyddiad cenedlaethol.

Adborth y busnesau:

"Thank you also for telling me about the HeloBlod translation service, they have been brilliant and it has really helped us having that 500 free words of translation a month and knowing that we have it moving forward."

"It was great to meet you the other day, I found the meeting so helpful and I am excited to focus on all of these ideas!

"Thanks for sending the links, I will send off the first bit for translation soon! Very exciting!"









Trwy ein gwaith yn y maes hwn yn ardal Menter Gorllewin Sir Gâr, mae 81 o fusnesau wedi clywed am y prosiect a'r cyfle i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg, ac mae 7 o fusnesau'r ardal wedi cael cymorth dwys pellach gyda'u defnydd o'r Gymraeg, boed hynny yn arwyddion, bwydlenni, rhannau o wefannau ag ati yn ddwyieithog.

# Cynhwysiad Digidol

Erbyn hyn mae'r gwaith o weithredu cytundebau ar ran y Canolfannau Gwaith, i weithio gyda'r di-waith, yn cael ei ddarparu o dan y brand MGSG Digidol, sy'n cael ei adnabod fel adran o Menter Gorllewin Sir Gâr. Bu 2020-21 yn dra gwahanol o ran gweithredu'r cytundebau i weithio gyda'r di-waith, yn sgil COVID 19 daeth gwaith MGSG Digidol i ben am gyfnod a bu'r staff ar furlough am gyfnodau yn amrywio o ddeufis i bum mis. Pan ail gychwynnwyd y gwaith, gwasanaeth dros y ffôn a'i ddarparwyd i gefnogi unigolion a'u cyfeiriwyd am gymorth, i greu yn bennaf CVs a llythyron i gefnogi ceisiadau am swyddi, gyda'r staff yn gweithio o adref.

Yn ystod y cyfnod dan sylw gweithredwyd cytundebau ar ran canolfannau gwaith yn ardaloedd Ceredigion, Sir Gâr, Sir Benfro, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf. Er y bwlch a fu yn y ddarpariaeth, gweithiwyd gyda tua 1,300 o unigolion a'u cyfeiriwyd gan y Canolfannau Gwaith unigol am gefnogaeth a chymorth gan MGSG Digidol yn ystod 2020-2021.

Penodwyd dau swyddog yn fewnol i weithio ar Gynllun Digidol Sir Gâr yn ystod 2020-21. Ariennir Cynllun Digidol Sir Gâr gan gronfa Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020 ac mae'n cynnig pecyn cyflawn o gefnogaeth a gwybodaeth i aelodau'r cyhoedd i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder digidol i lefel a fydd yn eu galluogi i ddefnyddio offer technoleg gwybodaeth i gael mynediad i wasanaethau. Gyda'r cyfnod clo, bu'n rhaid addasu'r prosiect i gynnig sesiynau ar lein a sesiynau 1 i 1. Wrth i ddysgu o adref ddod yn norm ym mywydau disgyblion, addasodd y prosiect i gynnig cymorth i'r rheiny mewn angen ar sut i ddefnyddio'r rhaglenni perthnasol. Gyda gwaith y fenter yn cael ei gynnal yn ddigidol, cynhyrchwyd fideos i hyrwyddo platfformau, rhaglenni ac apiau perthnasol yn wythnosol er mwyn cynyddu y nifer oedd yn gallu eu defnyddio.

MGSG Digidol

Cefnogwyd tua 1,300 o unigolion di-waith a'u cyfeiriwyd gan ganolfannau gwaith ar draws y saith sir.


# Cynllun Profi

Ers Ebrill 2020 rydym wedi canolbwyntio ar addasu'r cynllun er mwyn cynnig cyngor i ddisgyblion o bell. Er mwyn parhau i gynnig gwasanaeth rydym wedi mentora pobl ifanc dros e-bost, creu taflen lles a gafodd ei hanfon allan gan Ysgolion at deuluoedd, a rhannu ar gyfryngau cymdeithasol y Fenter a'r Ysgolion. Cyrhaeddodd y daflen Lles 5,196 o unigolion ar Facebook, 865 ar Trydar a chafodd ei hail-drydaru a rhannu gan sefydliad iechyd meddwl www.meddwl.org.




Hefyd crëwyd a rhannwyd cyflwyniad creu CV a chanllawiau, ar glipiau fideos gyda 7 Ysgol. Yn ogystal â rhannu'r adnoddau yma drwy e-bost a Teams ysgolion rydym wedi gwneud defnydd o gyfryngau cymdeithasol y Fenter a hyd yn hyn mae'r 24 o glipiau fideo animeiddio gyda chyngor byd gwaith wedi cael eu gwylio 7,517 o weithiau ar Facebook, 2,295 ar Instagram, a 422 o weithiau ar YouTube.

Rydym wedi llwyddo gyda chais i gynllun Leader ar gyfer penodi swyddog llawn amser dros gyfnod o ddwy flynedd i ymchwilio ar gynnwys gwefan interactif i wella sgiliau byd gwaith pobl ifanc. Mae hyn yn fuddsoddiad o grant ychwanegol o £120,015.00 tuag at y cynllun. Penodwyd Swyddog Prosiect Leader yn ystod mis Hydref. Mae'r cynllun yma yn ychwanegu gwerth at gynllun Profi ac yn canolbwyntio ar ddatblygiad cwis sgiliau interactif a bydd yn rhan o'r wefan. Yn ogystal byddwn yn creu 5 ffilm fer ar gyfer y wefan, YouTube a chyfryngau cymdeithasol i ddangos i bobl ifanc y trawstoriad o yrfaoedd sydd yn yr ardal. Y nod yw annog pobl ifanc i weld bod cyfleoedd o fewn ein cymunedau os byddant am ddychwelyd ar ôl graddio neu ar ôl bwrw prentisiaethau yn ardaloedd tu allan i'r sir.




Cyrhaeddodd y daflen Lles uchod 5,196 o unigolion ar Facebook a 865 ar Trydar. Cafodd 24 clip fideo eu creu i rannu sgiliau byd gwaith a'u gwylio 7,517 o weithiau ar Facebook, 2,295 ar Instagram, a 422 o weithiau ar YouTube gan gyrraedd 37,262. Yn ogystal â'r clipiau fideo, cafodd adnoddau a chwis Kahoot eu creu er mwyn annog dysgu drwy hwyl. Trefnwyd 9 grŵp ffocws i dderbyn barn pobl ifanc dros Teams i ddatblygu prototeip gwefan a chwis sgiliau Profi. Cafwyd 32 cyfarfod gyda phartneriaid i annog cydweithio a datblygiad y cynllun a mynychwyd 24 sesiwn hyfforddi i ddatblygu sgiliau'r Tîm.

# Mentrau Iaith Cymru

Mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn rhan o rwydwaith Mentrau Iaith Cymru. Mae 22 o Fentrau Iaith yn weithredol yng Nghymru. Yn genedlaethol, mae'r Mentrau yn cynnal dros 300 o swyddi, yn ogystal â swyddi rhan-amser a chyfleoedd achlysurol eraill ar ben hynny. Mae'r Mentrau yn gweithio gyda thua 1,000 o wirfoddolwyr ac yn cynnal miloedd o weithgareddau bob blwyddyn.

# Ardaloedd Blaenoriaeth

Roedd prosiect Ardaloedd Blaenoriaeth yn gweithredu yn wardiau Llanfihangel-ar-arth, Caerfyrddin a ward Cenarth. Mae heriau ieithyddol y dair ardal yn amrywio a nod y swyddog oedd darparu sesiynau cynllunio o fewn partneriaid iaith, sefydliadau cymunedol a'r gymuned leol. O'r mewnbwn crëwyd cynlluniau gweithredu er mwyn datblygu defnydd y Gymraeg yn yr ardaloedd ac i ddatblygu gweithgarwch a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y wardiau. Roedd y prosiect yn cynnwys Cynllun Academi Arweinyddion oedd yn rhoi'r cyfle i bobl ifanc yr ardaloedd blaenoriaeth i fagu hyder ac i ddod yn weithredol yn yr ardal a chynyddu gweithgarwch Gymraeg yr ardaloedd. Llongyfarchiadau mawr i'r criw am lwyddo i gyflawni'r prosiect ac i gynnal digwyddiadau wyneb yn wyneb ac yn rhithiol. Roedd y prosiect yn canolbwyntio ar fewnbwn y trigolion lleol a phartneriaid ar gyfer y gwaith cynllunio er mwyn cael sgwrs rheolaidd o weithgareddau newydd, osgoi dyblygu gwaith, blaengynllunio a chyd-farchnata yn sirol. Fe wnaeth y prosiect arwain at gynnig cyfle i'r Fenter drefnu digwyddiadau ar raddfa gwahanol yn cynnwys Gŵyl Canol Dre, sydd wedi roi platfform amlwg i'r Fenter a'r iaith yng Nghaerfyrddin ac ar draws y sir ac wedi arwain at dwf yn nifer o ddilynwyr platfformau cyfryngau cymdeithasol y Fenter. Hefyd, cynhaliwyd digwyddiadau yn wahanol i'r arfer a chyrhaeddwyd carfan newydd a gwahanol, nifer ohonynt yn mynychu ysgolion ail iaith. Roedd hefyd yn gyfle da i weithio'n ddwys mewn ardaloedd nad ydym yn gweithio ynddynt fel arfer a dod i adnabod y gwahaniaeth mewn ardal drefol a gwledig.

# Gŵyl Canol Dre

Mae Gŵyl Canol Dre yn un o brif ddigwyddiadau calendr y Fenter. Cynhaliwyd yr ŵyl yn 2018 a 2019 ym Mharc Myrddin, Caerfyrddin. Cafodd Gŵyl Canol Dre 2020 a 2021 eu gohirio oherwydd cyfyngiadau Covid ond gyda'r sefyllfa yn newid yn rheolaidd rydym yn gobeithio dychwelyd yn 2022.

# Partneriaethau

Mae gan y Fenter gysylltiadau agos gydag ystod eang o grwpiau, mudiadau a sefydliadau ac rydym yn cydweithio gyda:

- Mudiad Meithrin
- Merched y Wawr
- Cymraeg i blant
- Menter Cwm Gwendraeth Elli
- Menter Iaith Sir Benfro
- Mentrau Iaith Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Canolfan Hywel Dda
- Busnesau lleol
- Papurau Bro
- Amgueddfa Wlân Cymru, Drefach Felindre
- Carmarthen Journal
- Actif Sir Gâr
- Theatr Genedlaethol Cymru
- Gyrfa Cymru
- Bwrdd Iechyd Hywel Dda
- HUTS
- Plaid Cymru
- Heddlu Dyfed Powys
- Tîm Leader Sir Gâr
- Optimwm
- Syniadau Mawr Cymru
- Rhwydwaith Cyfuno/Fusion Sir Gâr
- Partneriaeth Sgiliau a Dysgu Rhanbarthol
- Swyddog Ymgysylltu Llywodraeth San Steffan
- Yr Atom
- Menter Dinefwr
- Cered
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr
- Yr Urdd
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Ysgolion cynradd ac uwchradd
- Yr Egin
- AGP (DWP)
- Canolfan Chwarae Sgiliau
- Coleg Sir Gâr
- Dysgu Cymraeg
- Neuadd yr Ysgol, Llanfihangel ar Arth
- CAVS / CAVO
- Swyddogion Cynllun Datblygu Gwledig Sirol
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Moilin
- Cynllun Local Motion
- Prosiect yfory Radio Beca

Mae'r Fenter yn aelod o'r Grŵp Cefn Gwlad Sirol, y Grŵp Gweithredu Lleol ynghyd â Grŵp Partneriaeth Mentrau Sir Gâr.

Llawr 1af, CCF Cyf, Stryd y Bont, Castell Newydd Emlyn, Sir Gâr, SA38 9DX
Yr Atom, 18 Stryd y Brenin, Caerfyrddin, Sir Gâr, SA21 1BN
01239 712 934 | www.mentergorllewinsirgar.cymru
Cwmni Cyfyngedig drwy warant - rhif cofrestredig 5981013 | Rhif Elusen Gofrestredig 1147184